# O wasanaeth i strategaeth: Strategaeth Hyfforddi Swyddi Genedlaethol i Gymru i gefnogi pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth i gyflogaeth.

## Gorffennaf 2024

**Dr. Elisa Vigna ac Andrea Meek,** Tîm Gwerthuso Engage to Change, Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, Prifysgol Caerdydd.

**Angela Kenvyn,** Rheolwr Prosiect Dylanwadu a Llywio Engage to Change, a **Gerraint Jones-Griffiths** Prif Llysgennad Dylanwadu a Llywio Engage to Change Arweiniol, Anabledd Dysgu Cymru.



# Contents


| | |
|---|---|
| Cefndir | 2 |
| Cyfle adeiladu | 3 |
| Cefnogi cyfle cyfartal | 4 |
| Cyllid | 7 |
| O Wasanaeth i Strategaeth | 8 |
| Diolchiadau | 11 |
| Cyfeiriadau | 12 |




# Cefndir

Roedd Engage to Change yn brosiect Cymru gyfan saith mlynedd o hyd, oedd yn cael ei ariannu drwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru i helpu pobl ifanc ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth i fynd i'r afael â rhwystrau cyflogaeth a phontio i swydd â thâl. Dan arweiniad Anabledd Dysgu Cymru, daeth ag asiantaethau cyflogaeth â chymorth ELITE ac Agoriad Cyf ynghyd i ddarparu hyfforddiant swydd, lleoliadau di-dâl a lleoliadau â thâl a swyddi â thâl mewn gweithleoedd arferol. Cafodd y prosiect ei gefnogi gan hunan-eiriolwyr o Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan a'i werthuso gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl (NCMH) ym Mhrifysgol Caerdydd.

Llwyddodd y prosiect Engage to Change i ddarparu cymorth cyflogaeth trwy hyfforddiant swydd i 1075 o bobl ifanc a chyflwyno 244 o interniaethau â chymorth, gan ennill cyfradd cyflogaeth â thâl gyffredinol o 41%. Mae hyn o gymharu â chyfradd cyflogaeth amcangyfrifedig o 4.8% ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn Lloegr (BASE 2023).

Nid yw'r prosiect bellach yn derbyn atgyfeiriadau.

Mae Dylanwadu a Llywio Engage to Change yn bartneriaeth rhwng Anabledd Dysgu Cymru ac NCMH ym Mhrifysgol Caerdydd. Rydym ni'n bwrw ymlaen â pholisi, ymchwil, a gwaith gwaddol y prosiect Engage to Change. Rydym ni'n eiriol dros Strategaeth Hyfforddwyr Swydd Cenedlaethol Cymru.



# Cyfle adeiladu

Yn 2020, fe wnaethom gyhoeddi papur briffio a oedd yn galw am Wasanaeth Cenedlaethol Hyfforddi Swyddi fel model effeithiol i gefnogi pobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth i gael mynediad cyfartal i'r farchnad lafur yng Nghymru. Defnyddiodd y papur briffio hwn dystiolaeth a gwersi a ddysgwyd o werthusiad pedair blynedd gyntaf y prosiect Engage to Change a dywedodd:

*"Mae'n rhaid i'r gwaith o ddarparu cyflogaeth â chymorth i bobl ag anabledd dysgu neu ASD, gan gynnwys hyfforddiant swydd, o ddwyster ac ansawdd sylweddol fod yn ganolog i unrhyw ailgynllunio i gefnogi'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur ac nad ydynt yn datblygu sgiliau i weithio drwy hyfforddiant neu gymhwyster cyn lleoliad yn hawdd. Dylai unrhyw gynllun adfer cyflogaeth, neu gynllun yn lle cynllun Cymorth Swyddi Cymru, gynnwys adnoddau wedi'u neilltuo ar gyfer Gwasanaeth Hyfforddi Swyddi Cenedlaethol i sicrhau nad yw pobl ag awtistiaeth a/neu anableddau dysgu yn cael eu gadael ar ôl yn y gystadleuaeth am swyddi newydd ar ôl Covid-19."* (Beyer, Meek a Vigna 2020)

Cydnabuwyd cyflogaeth â chymorth gan gynnwys hyfforddiant swydd fel yr elfen allweddol i gefnogi datblygiad sgiliau cysylltiedig â gwaith a phontio i gyflogaeth â thâl trwy ddysgu seiliedig ar waith.

Yng Nghymru, lle mae diweithdra ar hyn o bryd yn is na chyfartaledd y DU, mae cyfran uchel o bobl o oedran gweithio sy'n economaidd anweithgar (28.4%) oherwydd salwch ac anableddau hirdymor (Llywodraeth Cymru, 2024). Mae pobl ifanc ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth hefyd yn debygol o fod yn economaidd anweithgar oherwydd diffyg cymorth pontio a chyflogaeth.

Mae'r data diweddaraf yn dangos mai dim ond 4.8% o oedolion ag anabledd dysgu 18-64 mlwydd oed ac sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol oedd mewn cyflogaeth â thâl yn Lloegr (BASE 2023) ac 21.7% o bobl awtistig oedd yn gyflogedig (Office for National Statistics 2022). Yng Nghymru ar hyn o bryd nid ydym yn gwybod beth yw'r gyfradd gyflogaeth benodol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth oherwydd nid yw'r data hwn yn cael ei gasglu fel mater o drefn ac nid yw ar gael.

Mae gan Gymru lawer o raglenni cymorth cyflogaeth rhagorol, ond nid yw llawer o raglenni yn hygyrch o hyd i bobl ag anableddau dysgu, sy'n fwy tebygol o fod angen cymorth arbenigol, sy'n cael ei arwain gan anghenion a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (Miles a Rutter 2024).

Dros gyfnod o saith mlynedd, cefnogodd Engage to Change bobl ifanc ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth i gael gwaith.  Ers cyhoeddi ein papur briffio blaenorol mae cyfres o adroddiadau gwerthuso pellach a chasglu data wedi darparu tystiolaeth ychwanegol o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd ei angen o hyd.

## Cefnogi cyfle cyfartal

Mae'n bwysig cydnabod nad yw cymorth cyflogaeth a Chyflogaeth Gefnogol yr un peth.

O fewn ein galwad flaenorol am Wasanaeth Hyfforddi Swyddi Cenedlaethol, fe wnaethom ganolbwyntio ar bwysigrwydd ailgynllunio cymorth cyflogaeth i gynnwys darpariaeth cyflogaeth gefnogol yn well, wedi'i ddarparu trwy hyfforddiant swydd, gyda dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fe wnaethom nodi y dylai unrhyw gynllun adfer cyflogaeth, neu gynllun yn lle cynllun Cymorth Swyddi Cymru, gynnwys adnoddau wedi'u neilltuo ar gyfer Gwasanaeth Hyfforddi Swyddi Cenedlaethol i sicrhau nad yw pobl ag awtistiaeth a/neu anableddau dysgu yn cael eu gadael ar ôl.

Fe wnaeth adroddiad diweddar gan Dr. Hefin David AS, a ysgrifennwyd ar gyfer Senedd Cymru, groesawu'r syniad o Wasanaeth Hyfforddi Swyddi Cenedlaethol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ond cydnabu hefyd rai rhwystrau, yn bennaf oherwydd y rhaniadau rhwng cyfrifoldebau datganoledig a neilltuedig (David, 2023) . Mae argymhelliad 8 yn nodi *"Dylai Llywodraeth Cymru adolygu cymorth ar gyfer hyfforddi swyddi i'r dysgwyr trosiannol hynny ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n gofyn amdano. Gan gyfeirio at yr arfer da a ddatblygwyd gan Engage to Change ac Anabledd Dysgu Cymru, dylid paratoi strategaeth hyfforddi swyddi ADY, gan ehangu'r ddarpariaeth o hyfforddwyr arbenigol i gefnogi dysgwyr ag ADY i gael gwaith cyflogedig."* (David, 2023 t.24).

O ganlyniad i waith a wnaed gan y prosiect Engage to Change, mae Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau Llywodraeth Cymru, Cymru Gryfach, Gwyrddach, Tecach (2023) yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn:

*“Bwrw ymlaen â gweithgarwch i wella mynediad at, a chanlyniadau ar ein rhaglenni cyflogadwyedd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu sylweddol drwy ddarparu cymorth hyfforddwr swydd dwys arbenigol.”*

Mae’r gydnabyddiaeth gadarnhaol hon, sy’n cael ei hategu gan ganfyddiadau ymchwil Engage to Change wedi’u diweddaru, yn ein harwain i grynhoi ein sefyllfa bresennol o ran yr hyn sy’n gweithio i gael pobl ifanc ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth i gyflogaeth:

- **Mae profiad yn bwysig:** Cafodd profiad gwaith blaenorol (cyn cymryd rhan yn Engage to Change) ddylanwad cadarnhaol ar gyflogaeth yn y dyfodol i bobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys profiad gwaith pan mewn addysg, gwirfoddoli a gwaith cyflogedig. Mae cael profiad gwaith blaenorol yn gwella cyfleoedd gwaith pobl ifanc, yn enwedig os ydynt wedi cael mwy nag un cyfle. Mae hyn yn tanlinellu'r angen am brofiad gwaith o ansawdd uchel gyda chefnogaeth tra bod pobl ifanc yn yr ysgol neu'r coleg. Mae ein hymchwil yn awgrymu y bydd hyn ar ei ben ei hun yn arwain at gyfraddau cyflogaeth gwell na’r arfer i bobl ifanc ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth, os caiff profiadau eu trefnu a’u hariannu’n briodol.
- **Mae cymorth hyfforddi swydd arbenigol yn ffactor allweddol:** Roedd hyfforddiant swydd yn ganolog i gael pobl ifanc i mewn i gyflogaeth, dysgu swydd yn y gweithle, datblygu sgiliau cymdeithasol a wynebu'r heriau a osodwyd gan y pandemig Covid (Vigna, 2024). Mae Hyfforddwr Swydd yn rôl gymwysedig, arbenigol ac eang; mae’n dechrau gyda dod i adnabod yr unigolyn i ddeall sgiliau a dyheadau, paru nodweddion swydd â diddordebau, doniau a galluoedd y person ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth, a theilwra cymorth i anghenion y person a’r cyflogwr (Meek et al. 2023).
- **Dull a arweinir gan anghenion:** Roedd y prosiect Engage to Change yn cefnogi unigolion ag ystod eang o anghenion cymorth, ac felly mae trywydd cyflogaeth unigolion yn amrywio. Mae’n bosibl y bydd angen mwy o gymorth ar rai pobl ifanc nag eraill i feithrin sgiliau cyflogaeth newydd, efallai y bydd angen mwy o fewnbwn ar eraill gan hyfforddwr swydd i lywio’r agweddau cymdeithasol ar gyflogaeth a bydd angen cymorth wedi’i dargedu ar rai ynghylch cynnal a chadw swyddi (Vigna, 2024). Ni ddylai hyfforddiant swydd fod yn ddull “un maint i bawb” o ran faint o amser a neilltuir i unigolion o fewn y model cyflogaeth gefnogol “lleol, hyfforddi a chynnal”.
- **Profiad cyflogaeth sylweddol fel lleoliadau â thâl ac interniaethau â chymorth**, oedd yn rhoi’r cyfraddau uchaf o **ran trosglwyddo i gyflogaeth â thâl.** Yn y prosiect hwn cafodd y lleoliadau eu paru’n unigol â phobl ifanc, mewn gweithleoedd go iawn, yn gwneud gwaith go iawn, gyda chymorth hyfforddwr swydd yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen gan gynnwys yn y gweithle.

- **Ymgysylltu cyflogwyr:** Mae'n well gwneud hyn yn uniongyrchol ar sail cyflogwr-wrth-gyflogwr, yn enwedig pan fydd ganddynt berthynas â'r sefydliad cefnogi. Mae cynnig cyflogaeth gefnogol a gwasanaethau hyfforddwr swydd yn hanfodol i sicrhau cyflogaeth i bobl ag anableddau dysgu mewn marchnad lafur dynn.
- **Cydnabod canlyniadau ehangach cyflogaeth:** Mae bod mewn cyflogaeth yn cael effaith ar hyder, annibyniaeth a gwell iechyd meddwl. Gall cael strategaeth a all helpu pobl ifanc i bontio'n esmwyth o addysg i gyflogaeth gyfrannu at agendâu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a llesiant Llywodraeth Cymru.

Ers 2016, mae cyflogaeth gefnogol a chymorth pontio wedi esblygu ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno interniaethau â chymorth gan Engage to Change. Daeth y prosiect i ben ym mis Mai 2023 ond ei nod oedd gadael gwaddol. Mae gwaith mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill wedi arwain at: tua 20 o raglenni Interniaeth â Chymorth; Cynlluniau Rhannu Prentisiaethau â Chymorth/Cefnogaeth yng Ngogledd a De Cymru; Modelau Hyfforddeiaethau â Chymorth (Twf Swyddi Cymru+); 2 raglen Cyflogaeth Gefnogol Leol a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer 4 ardal yng Nghymru; Strategaeth Cyflogaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru sy'n cwmpasu ardaloedd y 6 awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru; galwad rhaglen Camau Cynaliadwy – Gyrfaoedd Gwyrdd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i gynnwys cyflogaeth â chymorth a hyfforddiant swydd mewn prosiectau.

Wrth symud ymlaen, fel rhan o’r cam Dylanwadu a Llywio Engage to Change, mae tîm gwerthuso Engage to Change yn yr NCMH, Prifysgol Caerdydd, mewn partneriaeth ag Anabledd Dysgu Cymru yn bwriadu mapio’r ddarpariaeth cyflogaeth gefnogol yng Nghymru, er mwyn deall beth sydd ar gael mewn gwahanol ardaloedd ar hyn o bryd. Mae angen i ni adeiladu ar y dulliau hyn yng Nghymru a gwneud yn siŵr bod pobl ifanc, eu teuluoedd, lleoliadau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, cyflogwyr, darparwyr a Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o’r hyn sydd ar gael. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod gwybodaeth a chyfathrebu ynghylch pontio, cymorth a chyflogaeth yn hygyrch ac yn nes at adref yn unol â strategaeth “Swyddi Gwell, Yn Nes at Adref” Llywodraeth Cymru a TUC Cymru ar gyfer lleoleiddio argaeledd swyddi a phecynnau cymorth unigol. .

# Cyllid

Mae cyllid yn elfen allweddol yn y drafodaeth hon. Rydym ni'n cefnogi'r syniad y dylai pob rhaglen cyflogaeth a sgiliau fod â chyllid wedi'i glustnodi ar gyfer cymorth hyfforddi swydd i'r unigolion hynny na fyddent yn gallu cael gwaith hebddo.

**Beth yw'r opsiynau?**

1. Mae Mynediad at Waith yn gynllun DWP sy'n darparu cyllid hyblyg i bobl anabl sy'n dechrau gweithio. Fe wnaeth taliadau Mynediad i Waith ar gyfer hyfforddiant swydd parhaus ddarparu adnodd arwyddocaol ar gyfer Engage to Change, gan helpu'r prosiect i gefnogi mwy o bobl na thrwy ei brif arian grant yn unig. Mae cyllid Mynediad i Waith hefyd wedi galluogi hyfforddwyr swyddi ychwanegol i gael eu cyflogi o fewn ei raglenni interniaeth â chymorth yng Nghymru. Yn ein briff blaenorol buom yn trafod sut mae datblygu Tîm Perthynas o fewn DWP wedi bod yn hanfodol i'n llwyddiant gyda'r cyllid hwn. Rydym yn dal i argymell y dylid bwrw ymlaen â'r trefniant hwn ar gyfer unrhyw raglenni cenedlaethol Llywodraeth Cymru o hyfforddiant swydd neu interniaeth â chymorth yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r oedi hir wrth wneud penderfyniadau am gyllid Mynediad at Waith ac wrth wneud taliadau a brofwyd gan Engage to Change yn parhau i fod yn faterion mae angen mynd i'r afael â hwy, er mwyn i hyn weithio a bod yn gynaliadwy. Rydym ni angen cyswllt ychwanegol gan Lywodraeth Cymru gyda DWP a Mynediad at Waith ar raglenni interniaeth i sicrhau hyblygrwydd mewn taliadau am gymorth personol a chydraddoldeb â chynlluniau Lloegr.
2. **Mae cyllid Pathway 4 a**r gyfer interniaethau â chymorth wedi'i ymestyn i lawer mwy o safleoedd yng Nghymru o dan Gwricwlwm Sgiliau Byw'n Annibynnol ôl-16 Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ffynonellau cyllid penodol i ddarparu cymorth un-i-un trwy hyfforddiant swydd ar gyfer interniaid y gallai fod angen cymorth paratoi arnynt, megis hyfforddiant teithio, ar gyfer cyn-interniaeth neu ar gyfer y rhai ôl-interniaeth sy'n dal i chwilio am waith, neu sydd efallai angen cymorth ad-hoc mewn cyflogaeth. Mae angen rhagor o waith gydag Adran Gwaith a Phensiynau'r DU fel y gellir defnyddio cyllid Mynediad at Waith yn haws yng Nghymru, gan gynnwys ymestyn oriau cymorth hyfforddwr swydd o amgylch darpariaeth interniaeth â chymorth.
3. Dylai cymorth drwy'r rhaglen **Cymorth Cyffredinol** gan DWP fod yn seiliedig ar ddarparu gwasanaethau sy'n cydymffurfio â model cydnabyddedig o gyflogaeth gefnogol y dangoswyd ei fod yn gweithio. Dylai unrhyw Strategaeth Hyfforddi Swyddi Genedlaethol a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru fod â synergedd â'r cyllid hwn ac arwain at ddarparu gwasanaeth effeithiol ar y cyd ledled Cymru.
4. Arweinir rhaglen Cyflogaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru gan Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac fe'i hariennir gan y **Gronfa Integreiddio Ranbarthol (RIF) a roddir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.** Mae'r rhaglen hon yn darparu model cyflogaeth gefnogol i bobl o bob oed sydd ag anabledd dysgu y gellid ei efelychu mewn rhanbarthau eraill yng Nghymru.

# O Wasanaeth i Strategaeth

Mae cyflogaeth yn fusnes i bawb. Mae cysylltiadau uniongyrchol rhwng cyflogaeth a bywyd ehangach, er enghraifft, lles, annibyniaeth, darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, rolau gofalu a'r economi. Yn anffodus, nid yw pobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth yn cael eu hystyried yn gyffredinol fel blaenoriaeth ar gyfer cymorth cyflogaeth.

Fe wnaeth ein papur briffio blaenorol alw am ddatblygu ac ariannu Gwasanaeth Hyfforddwyr Swydd Cenedlaethol ledled Cymru. Rydym ni'n cydnabod na fu modd cyflawni hyn yn yr hinsawdd bresennol.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yng Nghymru yn ymgysylltu â chyflogi pobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth. Os ydym am ddarparu cymorth effeithiol yng Nghymru mae angen i ni fod yn glir ynghylch cywirdeb y model a'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth effeithiol.

**Byddai Strategaeth Hyfforddi Swyddi Genedlaethol yn gwbl gyson â hyn.**

Fe wnaethom ddatblygu'r argymhellion allweddol canlynol ar gyfer Strategaeth Hyfforddi Swyddi Genedlaethol yn seiliedig ar werthusiad ac ymchwil Engage to Change:

- Mae angen i ni sicrhau bod cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer hyfforddi swyddi ar gyfer UNRHYW raglenni cyflogaeth a ddatblygir gan Lywodraeth Cymru.
- Rydym yn argymell dull o hyd sylweddol a arweinir gan anghenion ar gyfer hyfforddi swydd gyda'r nod o gynnig pecyn hyblyg o gyflogaeth gefnogol i bobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth.
- Dylai pob sefydliad ac unigolyn sy'n darparu cymorth hyfforddwr swydd weithio i'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Cyflogaeth Gefnogol a dylent fod wedi cwblhau hyfforddiant cyflogaeth gefnogol a hyfforddiant hyfforddwr swydd ynghyd â Hyfforddiant mewn Cyfarwyddyd Systematig (TSI). SYLFAEN NOS 2017
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cefnogi rhaglen hyfforddi a chymhwyster hyfforddwr swydd genedlaethol yn unol ag argymhellion BASE. (Tystysgrif Lefel 3 ar gyfer Ymarferwyr Cyflogaeth Gefnogol BASE )
- Mae Interniaethau â Chymorth, Twf Swyddi Cymru+, Prentisiaethau â Chymorth a Phrentisiaethau a Rennir â Chymorth yn ffyrdd ardderchog o gael pobl ifanc i mewn i waith cyflogedig. Fodd bynnag, os na chyflawnir cyflogaeth o fewn yr amserlen, mae perygl y bydd y mentrau hyn yn aflwyddiannus wrth bontio pobl ifanc. Dylai cymorth dilynol o raglenni cyflogadwyedd sy'n darparu cymorth hyfforddwr swydd i bobl sydd ei angen fod ar gael.

- Nid yw Interniaethau â Chymorth, Twf Swyddi Cymru+, Prentisiaethau â Chymorth a Phrentisiaethau a Rennir â Chymorth yn llwybrau priodol i gyflogaeth ar gyfer rhai pobl ifanc ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth. Hefyd, mae llawer o'r bobl ifanc hyn yn aros yn yr ysgol nes eu bod yn 19 mlwydd oed, sy'n golygu nad ydynt yn gymwys ar gyfer rhaglen Twf Swyddi Cymru+. Dylai pob rhaglen cyflogadwyedd a sgiliau gynnwys cefnogaeth hyfforddwr swydd i sicrhau cyfle cyfartal.
- Ni ddylai cymorth hyfforddwr swydd gael ei gyfyngu i bobl ag anabledd dysgu, diagnosis awtistiaeth neu statws ADY. Efallai y bydd rhai pobl yn hunan-ddiagnosio ac angen cymorth o hyd. Dylid rhoi cymorth hyfforddwr swydd i unrhyw berson na fyddai'n gallu cael a//cadw swydd gyflogedig hebddo.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried rôl hyfforddi swyddi mewn ysgolion ar y cyd â Gyrfa Cymru ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol neu addasiadau rhesymol ar gyfer profiad gwaith.
- Dylai'r meini prawf oedran cymwys ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau sy'n benodol ar gyfer pobl ifanc (fel Twf Swyddi Cymru+) fod yn unol â'r Gwarant Pobl Ifanc (16-24 mlwydd oed) o leiaf, ond yn ddelfrydol dylent fod ar gyfer 16-30 mlynedd yn unol â rhaglen gyrfaoedd gwyrdd Camau Cynaliadwy NLCF.
- Ni ddylai cymorth hyfforddwr swydd gael ei gyfyngu i bobl ifanc (16 i 25). Dylai fod ar gael i unrhyw berson o oedran gweithio.
- Mae angen disgwyliad cryfach y bydd darparu hyfforddiant swydd yn arwain at gyflogaeth i unigolion sy'n derbyn cymorth.
- Dylid darparu gwybodaeth i gyflogwyr ledled Cymru ynghylch Cyflogaeth Gefnogol a rôl yr hyfforddwr swydd.



**Yn ogystal â'r argymhellion uchod, byddem hefyd yn amlygu'r canlynol fel arfer da:**

- Mae angen i ni godi dyheadau a hyder pobl ifanc ag anableddau dysgu ynghylch cyflogaeth drwy weithio gyda nhw a'r ysgolion, colegau, teuluoedd ac eraill sy'n eu cefnogi, gan gynnwys Gyrfa Cymru. Dylid ystyried mentora cymheiriaid ar gyfer hyn.
- Mae angen cyfathrebu gwell a mwy hygyrch am y llwybrau i gyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu.
- Mae angen i ni godi disgwyliadau rhieni/gofalwyr, darparwyr addysg a chyflogwyr y gall pobl ifanc ag anableddau dysgu weithio gyda'r cymorth cywir a'r swydd gywir ar eu cyfer.
- ·Mae angen cyfathrebu gwell a mwy hygyrch i rieni a gofalwyr am y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc ag anableddau dysgu.
- Mae angen i brofiad gwaith fod yn fwy ystyrlon. Yn y lle cyntaf (14+ oed) dylai fod yn ymwneud â "beth yw gwaith" a rôl cyflogaeth, yna yn hwyrach (16 i 18+) dylai ganolbwyntio mwy ar sgiliau, mathau o swyddi/sectorau a phrofiadau ymarferol felly y gall pobl ifanc wneud dewisiadau gwybodus ynghylch opsiynau cyflogaeth.
- I gyflawni'r uchod, dylid cefnogi cynghorwyr Gyrfa Cymru i gysylltu ag asiantaethau cyflogaeth â chymorth i archwilio posibiliadau.
- Dylid datblygu cynllun "Cyflogwr sy'n Gyfeillgar i Bobl Ifanc" a'i hyrwyddo ledled Cymru i ymgysylltu â chyflogwyr a'u cefnogi i ddarparu lleoliadau profiad gwaith i bobl ifanc ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth.
- Dylai fod gweithio trawsbleidiol gwell o fewn Llywodraeth Cymru i annog trafodaethau a gwella gwybodaeth am gyflogaeth i bobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth ledled Cymru.
- Dylai is-adrannau, cyfarwyddiaethau a gweithgorau Llywodraeth Cymru, ynghyd â chyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gyfathrebu'n well â'i gilydd i gefnogi pobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth o ran cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys: Y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol/ rhaglen trawsnewid ADY / consortiwm Cwricwlwm i Gymru / Grŵp Gwarant Pobl Ifanc / Grŵp Cynghori Gweinidogol Anabledd Dysgu /Gweithgor Cyflogaeth Pobl Anabl/ Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio/ Medr ac eraill.
- Dylai trafodaethau gynnwys, yn orfodol, bobl ag anableddau dysgu, rhieni a gofalwyr, cyflogwyr a chomisiynwyr gwasanaethau.
- Dylid annog cyflogwyr i fabwysiadu arferion cynhwysol a hygyrch, gan gynnwys prosesau recriwtio, addasiadau rhesymol o gyfweliad i ymddeoliad, cyfleoedd blasu swyddi, cerfio swydd, a hyfforddiant mewn cyfarwyddyd systematig.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu enghreifftiau safonol o ffurflenni cyflogaeth Hawdd eu Deall. Gan gynnwys enghreifftiau ar gyfer hysbysebu swyddi, CV, ffurflenni cais am swydd a ffurflenni addasiadau rhesymol,

# Diolchiadau

Hoffem fynegi ein diolch i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am ariannu a chefnogi'r ymchwil hwn. Hoffem hefyd ddiolch i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth. Estynnwn ein diolch i'r partneriaid a'r cydweithwyr ar y prosiect Engage to Change blaenorol, gan gynnwys Agoriad Cyf, Elite Supported Employment, Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan a Phrosiect DFN SEARCH am eu gwaith dros y blynyddoedd. Gwerthfawrogwyd yn fawr y cymorth a ddarparwyd gan Jacob Meighan gyda thasgau gweinyddol dros y blynyddoedd. Hoffem ddiolch yn arbennig i'r cynghorwyr cyflogaeth a'r hyfforddwyr swyddi am gefnogi gyda chasglu data, ac i bobl ifanc a rhieni am eu cyfraniad i'r ymchwil hwn.

Awdur cyfatebol:
Dr. Elisa Vigna vignae@cardiff.ac.uk

Rheolwr Prosiect:
Angela Kenvyn angela.kenvyn@ldw.org.uk



# Cyfeiriadau


Beyer, S., Vigna, E., & Meek, A. (2021). Briff Engage to Change: Swyddi i bobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth - Rôl y GIG. Ar gael yn : http://Engage-to-Change-The-role-of-the-NHS-Jan21_final_eng2.pdf (engagetochange.org.uk)

Beyer, S., Meek, A., & Vigna, E. (2020). Briff Engage to Change: Pa newidiadau polisi sydd eu hangen i roi mynediad cyfartal i bobl ag anabledd dysgu neu ASD i'r farchnad lafur yng Nghymru? Ar gael yn: Briff Hyfforddwr Swyddi Cenedlaethol 6Gorffennaf20 V6_final.pdf (base-uk.org)

BASE (2017) Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Ar gael yn: Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol | Cymdeithas Brydeinig dros Gyflogaeth â Chymorth (base-uk.org). Cyrchwyd 03.07.24

BASE. (2024). Cyfraddau Cyflogaeth Pobl ag Anableddau 2022-23. Cyrchwyd o http:// British Association for Supported Employment (base-uk.org). Cyrchwyd 03.07.24

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2024). Cael cymorth gan Mynediad at Waith (Hawdd ei Ddeall). Ar gael yn: Mynnu cymorth gan Mynediad at Waith (Hawdd ei Ddeall) (publishing.service.gov.uk). Cyrchwyd 03.07.24

Meek, A., Vigna, E., & Beyer, S. (2024) Interniaethau â Chymorth: Gwerthuso canlyniadau prosiect cenedlaethol gan ddefnyddio modelau interniaeth gwahanol i gefnogi pobl ifanc ag anableddau deallusol a phobl ifanc awtistig i gyflogaeth. Ar gael yn: adroddiad interniaethau â chymorth Saesneg (engagetochange.org.uk)Miles, J., & Rutter, J. (2024). Pa ffordd nawr ar gyfer cymorth cyflogaeth yng Nghymru? : Sefydliad Dysgu a Gwaith Cyrchwyd o http://Employment-Support-full-report-1.pdf.

SYG. (2022). Cyflogaeth yn y DU: Rhagfyr 2022. Amcangyfrifon o gyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd ar gyfer y DU. Cyrchwyd o www.ons.gov.uk
Vigna, E., Beyer, S., & Meek, A. (2023). Dadansoddiad demograffig ac ansoddol o'r penderfynyddion llwyddiant mewn prosiect Cyflogaeth Gefnogol Cenedlaethol. J Appl Res Intellect Disabil. doi:10.1111/jar.13094

Vigna, E., Beyer, S., & Meek, A. (2023). Effaith pandemig COVID-19 ar swyddi i bobl ag anableddau deallusol ac awtistiaeth yng Nghymru. J Appl Res Intellect Disabil. DOI: 10.1111/jar.13194

Llywodraeth Cymru. (2024). Trosolwg o'r Farchnad Lafur, Mehefin 2024. Cyrchwyd o http:// Trosolwg o'r Farchnad Lafur: Mehefin 2024 (llyw.cymru).



Gwefan: www.engagetochange.org.uk

YouTube: Engage To Change

Facebook: @engagetochangewales

Twitter: @Engage_2_Change / @ncmh_wales